# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard O. Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Margaret M Roberts<br><br>**Aelodau'r Portffolio**<br><br>Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol) , Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts a Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig) Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant), y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Sgriwtini (SR), Dadansoddwr Busnes a Pherfformiad Corfforaethol (AW), Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni fu i unrhyw un ddatgan diddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2021 (galw i mewn), 23 Ebrill, 2021 a 14 Mai, 2021 (ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd) a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi – gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynglŷn â chreu'r Llawlyfr Cydnerthedd Cymunedol y cytunwyd arno yng nghyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor fel adnodd defnyddiol i ddwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd a'r arferion da wrth ymateb i bandemig Covid 19 o safbwynt cymunedol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr, er bod gwaith yn y cefndir i greu'r llawlyfr hwn wedi dechrau, nad oedd yn gallu rhoi amserlen ar gyfer ei gwblhau. Bydd y llawlyfr yn cael ei gynhyrchu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac ar sail yr amser fydd ar gael oherwydd y pandemig.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys adroddiad terfynol y cerdyn sgorio ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Mae'r cerdyn sgorio yn dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arno yn gynharach yn y flwyddyn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod Cerdyn Sgorio Chwarter 4 yn dod ag un o'r cyfnodau anoddaf ym mywyd y Cyngor hwn i ben. Yn ystod Chwarter 4, parhaodd Cymru i fod mewn cyfyngiadau symud cenedlaethol a gwelodd yr Ynys ei nifer uchaf o achosion cadarnhaol o Covid 19 yn ogystal ag ymlediad ar Ynys Cybi. O ganlyniad i ymateb ac ymyrraeth amlasiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa'n gyflym, gan osgoi unrhyw ledaeniad cymunedol pellach i rannau eraill o Ynys Môn. Yn y cyd-destun hwn y paratowyd adroddiad Chwarter 4 ac mae'n adnodd allweddol i fonitro llwyddiant busnes arferol y Cyngor.

Gan gyfeirio at feysydd perfformiad penodol, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol fod pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd arferol y caiff gwasanaethau eu darparu gan y Cyngor ac felly nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn a fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Mae'r tanwariant o £4.197m i'w groesawu ac mae'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor ond gallai'r sefyllfa newid yn enwedig gan fod disgwyl i'r galw am wasanaethau gynyddu yn dilyn y pandemig. Yn y meysydd hynny lle mae perfformiad wedi dirywio neu'n is na'r targed, mae Covid19 wedi bod yn ffactor sydd wedi cyfrannu'n sylweddol fel y dangosir yn yr adroddiad. I'r gwrthwyneb, mae'r pandemig a'r gorchymyn i bawb weithio gartref wedi arwain at welliant amlwg yn lefel absenoldeb staff gyda 6.68 diwrnod yn cael eu colli i absenoldeb fesul CALl yn ystod y flwyddyn yn erbyn targed o 9.75 diwrnod a gollwyd fesul CALl. Mae llai o gyswllt ag eraill wedi arwain at lefel salwch tymor byr o ddim ond 1.94 diwrnod yn cael eu colli oherwydd absenoldeb fesul CALl drwy gydol y flwyddyn. Mae'r defnydd o dechnoleg wedi bod yn allweddol er bod nifer y taliadau ar-lein ar gyfer y gwasanaeth biniau gwyrdd yn siomedig. Daeth llinellau ffôn y Cyngor o dan bwysau arbennig am gyfnod bryd hynny ac mae gwersi wedi'u dysgu o'r profiad gyda'r bwriad o wella'r broses y flwyddyn nesaf. Er iddi fod yn flwyddyn anodd mae perfformiad ar y cyfan wedi bod yn dda a diolch i holl staff y Cyngor sydd wedi sicrhau parhad busnes wrth addasu i wahanol ffyrdd o weithio, ac mewn llawer o achosion, ymgymryd â rolau nad oeddent yn bodoli cyn y pandemig.

Roedd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cytuno, er ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol iawn, fod staff wedi ymateb yn dda i'r amgylchiadau newydd ond bod Covid-19 yn parhau i fod yn her wrth symud ymlaen.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, codwyd y pwyntiau canlynol –

• Yr amserlen ar gyfer ailagor Cyswllt Môn, rhan y Cyngor i aelodau o'r cyhoedd reoli materion na ellir ymdrin â nhw ar-lein gan gydnabod bod yn rhaid gwneud hynny'n ddiogel.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r gobaith oedd y byddai Cyswllt Môn yn gallu ailagor ar ryw ffurf yn fuan. Roedd gwaith yn cael ei wneud yn y cefndir i'r perwyl hwnnw. Dywedodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ymhellach y gall y cyhoedd gysylltu â'r Cyngor drwy ddulliau eraill ac er bod pobl yn hoffi ymweld â Swyddfeydd y Cyngor i gael trafodaeth wyneb yn wyneb, rhaid i unrhyw ymweliad o'r fath fod at ddiben penodol. Nid y Cyngor yw'r unig un o gynghorau Gogledd Cymru heb ailagor ei ganolfan gyswllt gorfforaethol ac er bod gwaith yn cael ei wneud i ystyried sut y gellir ailagor Cyswllt Môn mewn ffordd sy'n cadw ymwelwyr a staff yn ddiogel, y cyngor gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw bod staff yn parhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl, sy'n berthnasol i staff Cyswllt Môn, fel y mae i staff mewn gwasanaethau eraill.

• Problemau gyda system ffôn y Cyngor a'i allu i ymdopi ar adegau pan fo niferoedd uchel o alwadau (e.e. mewn cysylltiad â'r taliadau bin gwyrdd) – nodwyd hyn cyn Covid-19. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa ddarpariaeth sy'n cael ei rhoi ar waith ar gyfer y system ffôn yn enwedig tra bod Cyswllt Môn yn parhau i fod ar gau a pha gynlluniau sydd ar y gweill i uwchraddio'r system.

Dywedodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ei bod yn bwysig ystyried y cyd-destun ac yn arbennig faint o alwadau ffôn a dderbyniwyd a oedd deirgwaith yn uwch nag arfer ar adegau brig. Er na chafodd unrhyw broblemau eu hadrodd gyda'r system ffôn yn y naw mis rhwng Mawrth a Rhagfyr, 2020, cafwyd nifer sylweddol o alwadau yn ystod mis Mawrth, 2021 - bron i 3,000 o alwadau'r dydd ar sawl diwrnod yn ystod y mis - a rhoddodd hyn bwysau enfawr ar y system. Cyn y pandemig, ffurfiwyd grŵp gorchwyl i edrych yn benodol ar system ffôn y Cyngor ond amharwyd ar ei waith gan y pandemig a'r ffaith bod Swyddogion maes o law wedi cael eu symud i wneud dyletswyddau eraill i ymateb ar frys i Covid. Fodd bynnag, roedd y broses o adolygu'r system ffôn ar waith a'r nod yw dod â chynnig i'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes yn y dyfodol agos gyda'r nod o wella'r system.

Wrth fynegi ei bryderon ei hun am y system ffôn, awgrymodd y Cynghorydd Dylan Rees y dylid cyflwyno Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer boddhad cwsmeriaid wrth gysylltu â'r Cyngor. Gallai hwn osod llinell sylfaen ar gyfer lefelau boddhad y gellid cymharu gwelliannau cynlluniedig i'r system ffôn yn eu herbyn. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd gweithdy gyda'r UDA a'r holl Aelodau Etholedig yn cael ei gynnal i drafod cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Penodol i'w cynnwys yng ngherdyn sgorio 2021/22 pan fydd yr holl awgrymiadau'n cael eu hystyried.

• Trefniadau ar gyfer hwyluso mynediad i ganolfannau ailgylchu'r Cyngor ac yn enwedig a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer ymestyn oriau agor neu lacio'r gofynion ar gyfer ymweliadau drwy apwyntiad wedi'u harchebu ymlaen llaw yn unig. Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff ei fod wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff sydd wedi bod yn weithredol drwy gydol cyfnod y pandemig. Mae'r gostyngiad yn y ffigurau ailgylchu yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor o tua 5,000 tunnell cyn Covid i 2,000 tunnell yn 2020 wedi taro'r gwasanaeth yn galed gan fod y gostyngiad o 3,000 tunnell wedi cael effaith sylweddol ar ffigurau ailgylchu. Caewyd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref am ddau fis o fis Mawrth, 2020 ac ar ôl hynny

cyflwynwyd system archebu ar-lein pan ganiatawyd i'r canolfannau ailagor. Fodd bynnag, roedd y galw am archebion yn parhau'n isel ac roedd ymweliadau â'r canolfannau ailgylchu yn llawer is na lefelau cyn Covid. Er bod y system archebu yn dal i fod mewn grym, mae opsiynau eraill bellach yn cael eu hystyried. Eglurodd Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) ynglŷn â Chanolfan Gwalchmai, oherwydd y risg o ddamwain ffordd, fod yn rhaid rheoli nifer yr ymweliadau â'r ganolfan yn ofalus sy'n golygu mai dim ond ar sail apwyntiad wedi'i archebu ymlaen llaw y caniateir hynny o hyd. Fodd bynnag, mae trefniadau ar waith i ganiatáu i ymweliadau gael eu gwneud â Chanolfan Penhesgyn heb apwyntiad ymlaen llaw; bydd nifer yr ymweliadau'n cael eu monitro a bydd manylion ymwelwyr yn cael eu cymryd wrth y fynedfa at ddibenion tracio ac olrhain. Os gellir rheoli'r trefniant hwn yn llwyddiannus yna caniateir iddo barhau. Yn y tymor hir, y nod yw edrych ar ffyrdd o wella'r system archebu i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr.

- Effaith y tanwariant refeniw ar ddiwedd y flwyddyn ar gyllidebau'r Cyngor yn ystod 2021/22 a thu hwnt.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr alldro refeniw ar gyfer 2020/21 yn well na'r hyn a rhagwelwyd ar ddiwedd y trydydd chwarter, oherwydd y grantiau hwyr a'r cymorth ariannol yn gysylltiedig â Covid gan Lywodraeth Cymru. Nid yw sefyllfa'r Cyngor yn hyn o beth yn wahanol i unrhyw un o Gynghorau eraill Gogledd Cymru sydd hefyd wedi tanwario mwy na'r disgwyl. Mae rhai o'r grantiau a dderbyniwyd wedi'u clustnodi i'w gwario yn 2021/22 o dan gynlluniau a fydd yn mynd rhagddynt yn unol â hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod ymdrechion wedi'u gwneud i nodi'r grantiau hynny nad ydynt yn gysylltiedig â phwrpas penodol wrth gau cyfrifon 2020/21 a'u bod wedi'u neilltuo i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd, o ganlyniad, wedi cynyddu tua £5m. Cyfanswm y tanwariant refeniw ar gyfer 2020/21 oedd tua £4m sy'n dod â balansau cyffredinol y Cyngor i £11.6m. Yn yr un modd, mae balansau ysgolion wedi cynyddu yn sgil grantiau Llywodraeth Cymru, rhai ohonynt ar gyfer 2020/21 a rhai ohonynt ar gyfer 2021/22 i helpu gyda chynlluniau dal i fyny addysg disgyblion. Ar hyn o bryd, mae balansau ysgolion yn £4m yn fwy na'r lefel flaenorol o £200k. Rhagwelir y bydd lefel balansau ysgolion yn gostwng eto yn 2021/22 wrth i ysgolion ddefnyddio'r grantiau y maent wedi'u derbyn. Er bod y sefyllfa ariannol gyffredinol felly'n iach, mae'r rhagolygon yn ansicr o ran y galw ar wasanaethau ar ôl y pandemig, gan arwain at orwariant posibl mewn gwasanaethau a'r defnydd dilynol o gronfeydd wrth gefn, ac o ran lefel y setliadau yn y dyfodol a allai gael eu heffeithio gan effaith ariannol Covid 19. Y gobaith yw y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn rhoi rhyw syniad o'r rhagolygon tymor hir ar gyfer cyllid cynghorau. Os bydd setliad is ar gyfer 2022/23 a thu hwnt, bydd balansau gwell y Cyngor yn caniatáu amser i weithredu unrhyw doriadau a/neu wneud iawn am ddiffyg cyllid yn y tymor byr.

**Ar ôl ystyried adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 4 2020/21 a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ynddynt i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

**DIM CAMAU PELLACH**

**4 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Darparodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid ar 3 Mehefin 2021 fel a ganlyn –

- **Diweddariad Cyllideb Refeniw Chwarter 4 2020/21**

Nododd y Panel, ar ôl derbyn cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Adnoddau (Swyddogaeth)/ Swyddog Adran 151, fod tanwariant o £4m ar ddiwedd y flwyddyn a rhoddodd y rhesymau amdano, oedd yn cynnwys llai o alw am rai gwasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer costau uwch a cholli incwm oherwydd y pandemig. Nodwyd sefyllfa ariannol yr ysgolion a balansau uwch yn ogystal â'r tanwariant ar gostau addysg ganolog oherwydd bod ysgolion wedi gorfod cau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Clywodd y Panel fod 3 ysgol bellach mewn diffyg o'i gymharu ag 11 y llynedd.

Nododd y Panel hefyd fod gwasanaethau wedi tanwario o £3m; amlinellwyd y gwasanaethau hynny ac esboniwyd pam eu bod wedi tanwario. Cydnabuwyd yr angen i adolygu cyllideb gwasanaethau plant y tu allan i'r sir oherwydd yr arian ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bod llai o alw am leoliadau y tu allan i'r sir wrth i ddarpariaeth gwasanaeth maeth yr Awdurdod ei hun gynyddu. Trafodwyd ochr ariannu busnes y Cyngor gan gynnwys y Dreth Gyngor, y Premiwm Treth Gyngor, ardrethi annomestig a'r Grant Cynnal Refeniw lle'r oedd yr incwm £133k yn is na'r gyllideb. Priodolwyd hyn yn bennaf i'r ffaith bod 200 o ail gartrefi wedi newid o Dreth y Cyngor i ardrethi busnes a bod y Cyngor wedi gorfod ad-dalu'r gwahaniaeth. Er gwaethaf hyn, mae nifer yr ail gartrefi sy'n talu'r premiwm wedi aros yn gyson sy'n dangos bod nifer yr eiddo yn y categori cartrefi gwag ac ail gartrefi yn cyfateb i'r rhai sy'n newid. Wrth gytuno y byddai'r Panel yn craffu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar gynyddu premiwm Treth y Cyngor, nodwyd ei bod yn dod yn fwyfwy heriol i bobl ifanc brynu eiddo a bod angen rhyw fath o gynllun i'w helpu. Nododd y Panel hefyd yr ychydig feysydd o orwariant o fewn y Cyngor.

Wrth ystyried rhagolygon ariannol yn y dyfodol, nododd y Panel yr ansicrwydd ynghylch setliadau ariannol yn y dyfodol a lefel y galw am rai o wasanaethau'r Cyngor wrth iddo ddod allan o'r pandemig yr oedd yn ei gydnabod fel risgiau. Nodwyd pwysigrwydd cynnal lefel iach o falansau felly i fodloni pwysau posibl ar y galw yn y dyfodol a/neu lai o arian. Wrth orffen craffu ar refeniw yn Chwarter 4 y gyllideb, argymhellodd y Panel y canlynol er sylw'r Pwyllgor –

- Nodi perfformiad ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd Chwarter 4 2020/21
- Cydnabod yr ansicrwydd mewn perthynas â setliad ariannol 2022/23 a'r posibilrwydd o fwy o alw ar wasanaethau gan gydnabod pwysigrwydd cynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn.
- Craffu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar gynyddu premiwm Treth y Cyngor maes o law.

- **Diweddariad Cyllideb Cyfalaf Chwarter 4 2020/21**

Nododd y Panel, ar ôl derbyn cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Adnoddau (Swyddogaeth)/ Swyddog Adran 151, fod y tanwariant ar raglen gyfalaf 2020/21 yn £25m sy'n uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol ond y mae rhesymau penodol dros hynny, yn enwedig y ffaith bod cynlluniau cyfalaf wedi'u gohirio oherwydd pandemig Covid 19 mewn blwyddyn eithriadol. Sicrhawyd y Panel na fyddai unrhyw gyllid allanol yn cael ei golli o ganlyniad i'r llithriant. Nodwyd hefyd bod pris deunyddiau adeiladu wedi cynyddu a bod rhai o bosibl yn brin gan effeithio ar brosiectau cyfalaf wrth symud ymlaen – hysbyswyd y Panel y bydd y prisiau hynny'n cael eu cynnal lle mae tendrau ar waith. Argymhellodd y Panel y dylid nodi'r gwariant yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn Chwarter 4.

Wrth nodi'r adroddiad yn ôl gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid ar sefyllfa Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Chwarter 4, tynnodd y Cynghorydd Bryan Owen sylw at y ffaith bod bron i 10% o gyllideb y Cyngor bellach yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn; holodd felly a fydd lefel uchel yr Awdurdod o gronfeydd wrth gefn yn effeithio ar ei setliad ariannol

gan Lywodraeth Cymru oherwydd gallai cadw cymaint o arian wrth gefn awgrymu bod yr Awdurdod yn gallu ymdopi â llai. Awgrymodd ymhellach pe na bai'r Awdurdod wedi codi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 yna byddai ganddo ddigon o gronfeydd wrth gefn o hyd a'i bod efallai'n bryd ystyried gwneud defnydd da o'r cronfeydd wrth gefn hynny er budd y trethdalwr drwy wella gwasanaethau neu ddarparu cyfleusterau mewn cymunedau e.e. lleiniau 3G.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y byddai'r Panel Sgriwtini Cyllid yn cefnogi defnyddio cronfeydd wrth gefn pe bai hynny'n cael ei wneud mewn ffordd resymol a'i fod wedi argymell cynnydd is yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid wrth gydnabod y pwynt a godwyd, mai cynnydd Treth Gyngor CSYM ar gyfer 2021/22 oedd yr ail isaf yng Ngogledd Cymru. Er y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio ar ryw ffurf a buddsoddiad yn cael ei wneud yn adnoddau'r Ynys, mae angen i'r Awdurdod fod yn wyliadwrus wrth reoli ei gronfeydd wrth gefn oherwydd lefel yr ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Bydd y broses o adolygu cyllidebau gwasanaeth yn dechrau yn ddiweddarach y mis hwn a bydd yn rhoi cyfle i wasanaethau drafod eu dyheadau ac ystyried a ellir ymgorffori'r rheini yng nghynlluniau gwariant y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod sefyllfa ariannol gadarnhaol bresennol yr Awdurdod yn deillio o gyllid hwyr gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ôl i gyllideb 2021/22 gael ei gosod. Mae angen i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wrth gefn sy'n golygu peidio â'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf yn unig ond gan ystyried y pwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn i ddod a'r angen o bosibl i gefnogi'r gyllideb refeniw yn sgil hynny. Wrth ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn, bydd yn rhaid ystyried prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i drigolion Ynys Môn ac i'r posibilrwydd hefyd y gallai fod yn ofynnol i'r cronfeydd wrth gefn lenwi bwlch ariannu rhwng setliad llai a'r arbedion y gall yr Awdurdod eu cyflawni.

Cafwyd trafodaeth am bremiwm Treth y Cyngor ac a yw'r incwm y mae'n ei gynhyrchu yn cael ei dargedu at y cymunedau hynny lle mae nifer yr ail gartrefi neu gartrefi gwag ar ei uchaf. Gwnaed pwynt bod y premiwm yn gleddyf deufin sy'n effeithio ar bobl leol a allai dderbyn ail eiddo nad ydynt wedyn yn gallu ei waredu ac a allai aros yn wag am gyfnod hir.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y refeniw a gynhyrchir gan bremiwm y Dreth Gyngor yn mynd at y gyllideb a bod elfen yn cael ei dyrannu i gyllideb y Gwasanaeth Tai i helpu pobl ifanc ar draws yr Ynys gyda'u hanghenion tai; nid yw wedi'i dargedu at ardaloedd lle mae nifer yr ail gartrefi a/neu gartrefi gwag yn uchel ond mae ar gael i fodloni hawliadau cymwys lle bynnag ar yr Ynys y cânt eu gwneud. O ran cartrefi gwag, mae perchnogion cartrefi gwag wedi'u heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor a'r premiwm am y 6 mis cyntaf ar ôl i'r eiddo ddod yn wag; os yw'r eiddo'n cael ei farchnata'n weithredol, ni fydd y premiwm yn gymwys am 12 mis arall. O dan Bolisi Rhyddhad Dewisol Treth Gyngor y Cyngor, mae gan y Swyddog Adran 151 yr awdurdod i ystyried achosion lle byddai gorfod talu'r Dreth Gyngor a/neu bremiwm yn achosi caledi ariannol ac os yw hawlwyr yn gallu dangos bod hynny'n wir ac na allant waredu'r eiddo, gellir eu heithrio rhag talu'r premiwm. Prin yw'r achosion hynny, diben y premiwm yw cymell pobl i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd drwy eu huwchraddio, eu gwerthu neu eu gosod.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, nodi'r pwyntiau a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth.**

**DIM CAMAU PELLACH**

## 5 EFFAITH COVID AR WASANAETHAU DIGARTREFEDD

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaeth (Tai) oedd yn amlinellu sut yr ymatebodd y Gwasanaeth i ddigartrefedd yn ystod y pandemig i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r materion yr ymdriniwyd â nhw o ran nifer yr aelwydydd/unigolion a oedd yn datgan eu bod yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwn; yr heriau i ganfod a darparu llety brys; y problemau iechyd meddwl a chorfforol a brofir gan lawer o'r rhai sy'n ceisio cymorth a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth ymateb i'r argyfwng.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) fod y papur yn cyflwyno trosolwg o'r heriau y mae'r Gwasanaeth Tai yn eu hwynebu wrth ymateb yn gyflym i'r pandemig drwy ddarparu llety diogel i amddiffyn pobl ddigartref a lleihau'r siawns o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned. Fel gyda llawer o wasanaethau eraill, bu'n rhaid darparu'r Gwasanaeth Digartrefedd mewn ffordd wahanol gyda'r holl weithgarwch yn cael ei gynnal dros y ffôn neu ar lwyfannau digidol gyda chymorth yn cael ei ddarparu o bell a thrwy ddarparwyr cymorth y gwasanaeth. Mae'r cyfnod wedi darparu cyfleoedd newydd i ymgysylltu ag unigolion y mae'r gwasanaeth wedi bod yn ceisio eu cefnogi yn ogystal â gyda phrif bartneriaid gyda phob sefydliad yn cyd-dynnu i sicrhau digon o gapasiti. Roedd darparu digon o unedau i ddiwallu'r angen yn her oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn ceisio cymorth; mae'r llif cynyddol o bobl sy'n ceisio cymorth wedi parhau ers hynny gyda'r gwasanaeth eisoes wedi delio â 100 o geisiadau o'r fath. Un o'r heriau mwyaf yw gallu symud y rhai sy'n cael eu cartrefu mewn llety brys i dai parhaol; mae prinder cyfleoedd i symud ymlaen yn ogystal â rhenti uchel yn golygu bod yr Awdurdod yn cefnogi unigolion am gyfnodau hirach. Mae'r Tîm hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod atynt yn dioddef o broblemau cymhleth gan gynnwys problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Mae pobl eraill wedi dod atynt mewn cyflwr bregus iawn gyda darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer bwyd, pecynnau cychwyn tenantiaeth, dodrefn sylfaenol a phecynnau i gynorthwyo os oes angen hunanynysu oherwydd Covid.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) ymhellach –

- Bod pandemig Covid 19 wedi gwaethygu'r sefyllfa o ran digartrefedd gan fod cyfnodau cyfyngiadau symud estynedig wedi cael effaith ar berthnasoedd teuluol ac wedi cyfrannu at chwalu teuluoedd; maent wedi arwain at fwy o achosion o gam-drin domestig ac wedi arwain at fwy o bobl ifanc yn ceisio cymorth. Er bod y rhain yn faterion y mae'r Gwasanaeth Tai wedi arfer delio â nhw, mae argyfwng Covid 19 wedi cyfrannu at gynnydd yng ngraddfa'r heriau a wynebir.
- Bod canfyddiad bod cysgu ar y stryd yn rhywbeth sy'n effeithio ar drefi a dinasoedd mawr yn hytrach nag ardaloedd gwledig a hefyd camargraff y gall yr Awdurdod Lleol ddatrys y broblem a gorfodi unigolion oddi ar y stryd; mae'r Awdurdod yn ceisio perswadio unigolion sy'n cysgu ar y stryd i symud o'r strydoedd i lety a gwasanaethau eraill a all hefyd ddarparu cymorth. Mae'n parhau i geisio gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd sy'n gwrthod cyngor a chymorth.
- Nad yw problemau pobl ddigartref yn cael eu datrys yn syth gan y cynnig o lety a bydd angen cymorth parhaus ar lawer i setlo i mewn i'w tenantiaeth a'i chynnal. Felly, mae ymgysylltu â sefydliadau a all gynnig cymorth ychwanegol yn allweddol i gynnal tenantiaeth yn llwyddiannus.
- Bod Cynllun Gwaith Cydweithredol y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol sydd wedi'i atodi i'r adroddiad yn dangos yr ardaloedd hynny lle mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi bod yn cydweithio i fynd i'r afael â materion digartrefedd. Mae pob Awdurdod Lleol hefyd yn cytuno ar eu camau gweithredu lleol eu hunain i fynd i'r afael â materion yn eu hardal eu hunain.

- Bod adolygiad o gydweithio yn ystod y pandemig yn cael ei gynnal i gael adborth yn enwedig gan ddarparwyr cymorth yr Awdurdod sydd wedi cadarnhau eu gwerthfawrogiad o hygyrchedd swyddogion Cymorth Tai yn ystod y cyfnod hwn. Bu cydweithio agos a chynhyrchiol hefyd gyda'r Heddlu a gyda'r Gwasanaeth Prawf. Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar bobl ag anghenion cymhleth nad yw dod o hyd i lety ond yn rhan o'r ateb iddynt a lle mae cydweithio ag asiantaethau partner eraill yn hanfodol.
- Er nad yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn cadarnhau cysylltiad rhwng prinder tenantiaethau preifat a chynnydd yn nifer yr ail gartrefi, mae arwydd bod rhenti'r sector preifat yn ogystal â disgwyliadau landlordiaid mewn perthynas â thenantiaethau wedi cynyddu gan ei gwneud yn anos i unigolion sy'n cael budd-daliadau gael mynediad i lety. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda landlordiaid preifat i wneud llety'n hygyrch ac mae'n debygol y bydd y cynnydd mewn prynu tai i'w weld mewn amser trwy ostyngiad yn nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu; hefyd mae'n bosibl y bydd landlordiaid preifat yn penderfynu gwerthu eu heiddo mewn marchnad eiddo ffafriol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ar yr ymateb i Covid a digartrefedd a nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAMAU PELLACH**

## 6 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor hyd at fis Tachwedd 2021 i'w hystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn bresennol y flaen raglen waith ar gyfer 2021/22.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**